WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**


Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 463A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a wnaethpwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English

Y tîm a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn oedd Carol Moseley, Geraint Norman, Dave Thomas ac Ann-Marie Harkin.

# Cynnwys

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 8

Ynglŷn â’r adroddiad hwn 8

Adran 1: archwiliad o’r cyfrifon 9

Rwyf wedi cyflwyno barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2016-17 y Bwrdd Iechyd, ac wrth wneud hynny, rwyf hefyd wedi tynnu materion at sylw swyddogion a’r Pwyllgor Archwilio a chyflwyno adroddiad perthnasol ynghyd â fy marn archwilio 9

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 10

Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod mewn sefyllfa ariannol heriol iawn ond cydnabyddir y camau y mae angen eu cymryd i fynd i’r afael â’r problemau a cheir tystiolaeth bod gwelliannau’n cael eu gwneud 11

Cafwyd heriau sylweddol oherwydd trefniadau arwain dros dro a’r trosiant o aelodau bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae’r Bwrdd mewn sefyllfa fwy sefydlog bellach i fwrw ymlaen â chamau allweddol fel datblygu strategaeth tymor hirach, ymwreiddio trefniadau llywodraethu newydd a chryfhau agweddau ar reoli perfformiad 13

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol 17

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyflwynwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 24

Atodiad 2 – ffi’r archwiliad 25

Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol 26

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio yr wyf wedi'i wneud ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2017. Gwneuthum y gwaith hwnnw i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd to sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Roedd fy ngwaith archwilio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol a'r risgiau ariannol a gweithredol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i fy nghyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion yn yr adroddiadau ar wahân yr wyf wedi eu cynhyrchu yn ystod y flwyddyn ar agweddau penodol ar yr archwiliad. Rydym yn trafod yr adroddiadau hyn â swyddogion ac yn cytuno ar eu cywirdeb cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Dangosir fy adroddiadau yn Atodiad 1.

3 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno bod yr adroddiad hwn yn ffeithiol gywir. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 15 Mawrth 2018. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod dilynol o'r Bwrdd a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog yn gryf bod y Bwrdd Iechyd yn trefnu i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi yn ehangach. Yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd, byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

4 Gellir crynhoi fy ngwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

### Adran 1: archwiliad o'r cyfrifon

5 Rwyf wedi cyflwyno barn amodol ar ddatganiadau ariannol 2016-17 y Bwrdd Iechyd, ac wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater. Mae'r amod yn gysylltiedig â'r farn rheoleidd-dra yn unig ac mae hyn oherwydd i'r Bwrdd Iechyd fethu â chyflawni ei ddyletswydd ariannol cyntaf o dan Ddeddf Cyllid GIG (Cymru) 2014, i gyflawni balans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17.

6 Ynghyd â fy marn archwilio, cyflwynais adroddiad perthnasol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at ei fethiant i fodloni ei ddyletswyddau ariannol.

7 Rwyf wedi dod i'r casgliad hefyd bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi yn briodol a'u bod yn gywir yn eu hanfod.

8 Ni wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r cyfrifon.

9 Mae Adran 2 o'r adroddiad hwn yn cynnwys rhagor o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

10 Rwyf wedi archwilio trefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd, a'i gynnydd ar y materion gwella a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd. Gwneuthum hyn i fodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau. Rwyf wedi cynnal adolygiadau Archwilio Perfformiad hefyd ar feysydd penodol o ddarpariaeth gwasanaeth. Mae fy nghasgliadau, yn seiliedig ar y gwaith hwn, wedi'u nodi isod.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod mewn sefyllfa ariannol heriol iawn ond cydnabyddir y camau y mae angen eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a cheir tystiolaeth bod gwelliannau'n cael eu gwneud

11 Mae'r canfyddiadau allweddol o'm hadolygiad o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol fel a ganlyn:

- mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i brofi heriau ariannol sylweddol ac er bod arbedion yn helpu i gau'r bwlch adnoddau, nid ydynt yn ddigonol i gyflawni balans ariannol;
- nid yw'r trefniadau ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion wedi bod yn effeithiol nac yn gynaliadwy ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei ddull ac yn cydnabod yr angen i gynyddu'r pwyslais ar weddnewid y gwasanaeth a'i wneud yn effeithlon; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar arbedion.

### Cafwyd heriau sylweddol oherwydd trefniadau arwain dros dro a'r trosiant o aelodau bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd mewn sefyllfa fwy sefydlog bellach i fwrw ymlaen â chamau allweddol fel datblygu strategaeth tymor hirach, ymwreiddio trefniadau llywodraethu newydd a chryfhau agweddau ar reoli perfformiad

12 Mae'r canfyddiadau o'm hadolygiad o drefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:

- yn dilyn cyfnod ansefydlog o ran aelodaeth y Bwrdd, mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod angen datblygu ei Fwrdd newydd, diwygio strwythurau ei bwyllgorau a chryfhau'r trefniadau llywodraethu cyffredinol yn gyflym;
- gan weithio yn unol â Chynllun Gweithredu Blynyddol, mae'r Bwrdd Iechyd yn ailddatblygu ei strategaeth glinigol er mwyn llywio ei waith cynllunio tymor hirach, mwy gweddnewidiol, er bod y capasiti cynllunio yn gyfyngedig;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi rheoli effaith newidiadau gweithredol mawr yn 2017 ac yn cydnabod bod datblygu'r tîm gweithredol newydd, datblygu

arweinyddiaeth a chapasiti, ac ymwreiddio trefniadau rhaglenni bwrdd newydd yn flaenoriaethau ar gyfer 2018;

- mae trefniadau rheoli risg yn aeddfedu ond byddai o fudd i'r prosesau rheoli perfformiad fod â threfniadau adrodd mwy integredig a phwyslais cryfach ar atebolrwydd a chanlyniadau;
- mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gyfredol ond bydd bodloni'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd yn heriol o fewn yr adnoddau presennol;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da yn ei ddefnydd o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) i ddatgelu twyll a gordaliadau; ac
- er bod mwy i'w wneud i gwblhau rhai camau yn llawn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd ac mae'r trefniadau angenrheidiol ar waith i dracio argymhellion archwiliadau.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell ddefnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

13 Rwyf wedi cynnal nifer o adolygiadau archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf. Mae canfyddiadau allweddol yr adolygiadau hynny fel a ganlyn:

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ymgysylltiad cadarnhaol â rhanddeiliaid ond mae'n wynebu nifer o heriau o ran y gweithlu, rheoli asedau a TGCh a rheoli rhaglenni;
- mae rheolaeth bob dydd y gweithrediadau radioleg yn dda, ond mae galw cynyddol, heriau sylweddol o ran y gweithlu, offer sy'n heneiddio a chynllunio strategol gwan yn arwain at ôl-groniadau o ran adrodd a risgiau eraill i'r cyflawniad yn y dyfodol;
- mae gan y gwasanaeth y tu allan i oriau meddygon teulu drefniadau llywodraethu effeithiol a llai o broblemau staffio nag yn y rhan fwyaf o rannau o Gymru. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei ddealltwriaeth o'r galw, mynd i'r afael â phroblemau o ran data perfformiad a chryfhau ei gynllunio strategol a chynllunio gweithlu;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid i wella'r llif o gleifion a'r cynllunio gweithlu, ac er y ceir gwelliannau mewn perfformiad mae mwy i'w wneud o hyd;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o'm gwaith blaenorol, ond mae angen mwy o bwyslais er mwyn lleihau'r oedi wrth ddarparu apwyntiadau dilynol, drwy wella prosesau gweithredol a moderneiddio gwasanaethau.

14 Yn ogystal â'r uchod, rwyf hefyd wedi gwneud gwaith Cymru gyfan mewn meysydd sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r gwaith hwn wedi dangos:

- bod trefniadau comisiynu ar y cyd wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig ar gyfer gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru; fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid; ac
- nid yw'r trefniadau ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent.

15 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

16 Mae'r adroddiad hwn sef Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017 i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2017.

17 Gwneuthum fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodir yn Neddf 2004[1]. Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, ac i'w gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) fy modloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddynt wedi eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) fy modloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

18 O ran (c), rwyf wedi cael sicrwydd neu fel arall o'r ffynonellau tystiolaeth a ganlyn:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaethpwyd yn rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a oedd yn archwilio'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
- archwiliadau perfformiad o gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, pan fyddant yn berthnasol i fy nghyfrifoldebau i; a
- gwaith arall, fel ymarferion cydweddu data yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).

19 Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi y materion a gyflwynir yn yr adroddiadau mwy manwl hyn, a restrir yn Atodiad 1.

20 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- adran 1: archwiliad o'r cyfrifon
- adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau

21 Yn Atodiad 2 ceir yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017.

22 Yn olaf, nodir yn Atodiad 3 y risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2017 a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: archwiliad o'r cyfrifon

23 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau o'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17. Dwry'r datganiadau hyn, mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llif arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol wrth ddangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

24 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar:

- pa un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- pa un ydynt wedi eu paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill, ac yn cydymffurfio a gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- pa un a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w archwilio wedi ei pharatoi'n briodol;
- pa un a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr Adroddiad Blynyddol) yn gyson â nhw; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.

25 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â fy Nghod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Rwyf wedi cyflwyno barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2016-17 y Bwrdd Iechyd, ac wrth wneud hynny, rwyf hefyd wedi tynnu materion at sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a chyflwyno adroddiad perthnasol ynghyd â fy marn archwilio

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac maent yn gywir yn eu hanfod

26 Derbyniais gyfrifon drafft erbyn y dyddiad terfyn ac roedd y papurau gwaith ategol o ansawdd da.

27 Mae'n ofynnol i mi adrodd ar faterion sy'n codi o'm ngwaith i'r bobl hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi gyflwyno fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Pwyllgor ar 31 Mai 2017. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar Archwiliad y Datganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Gwnaed sawl addasiad i'r cyfrifon drafft a oedd yn ymwneud yn bennaf ag ychwanegu naratif er mwyn rhoi mwy o eglurder. |
| Materion eraill o bwys | Rhoddais amodau ar fy marn ar reoleidd-dra a chyflwynais adroddiad o sylwedd oherwydd na chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i gyflawni balans ariannol ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17.<br>Adroddais fod angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli ymadawiadau uwch-aelodau o staff. |

28 Yn rhan o'm harchwiliad ariannol, adolygais y datganiad Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod yr wybodaeth cydgrynhoi parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2017 a pharatowyd y datganiad yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

29 Mae fy archwiliad ar wahân o'r datganiadau ariannol ar Gronfeydd Elusennol wedi ei gwblhau a chyflwynais farn ddiamod ar y cyfrifon ym mis Tachwedd 2017.

Ni wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd

30 Adolygais reolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd yr oeddwn yn eu hystyried yn berthnasol i'r archwiliad i'm helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiadau o bwys yn y cyfrifon. Nid diben eu hystyried, fodd bynnag, oedd mynegi unrhyw farn ar effeithiolrwydd gweithredu'r rheolaethau mewnol. Ac eithrio'r materion a nodwyd yn Arddangosyn 1, ni wnaeth fy adolygiad nodi unrhyw ddiffygion sylweddol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

# Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

31 Mae'n ofyniad statudol i mi fy modloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn eu defnydd o adnoddau. Rwyf wedi cynnal amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol a'u cyfraniad at gyflawni balans ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith asesu strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion asesu strwythuredig a wnaed y llynnedd;
- asesu'r defnydd o gydweddu data yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol;
- defnydd penodol o waith adnoddau ar wasanaethau radioleg, gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu a chynllunio rhyddhau; ac
- asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â gwaith archwilio blaenorol ar reoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol, ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer tracio cynnydd o'i gymharu ag argymhellion archwilio allanol.

32 Rwyf hefyd wedi gwneud gwaith archwilio sydd wedi ystyried y trefniadau llywodraethu yn y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, a'r trefniadau gweithio ar y cyd rhwng timau iechyd cyhoeddus lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

33 Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith y cyfeirir ato uchod o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod mewn sefyllfa ariannol heriol iawn ond cydnabyddir y camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau a cheir tystiolaeth bod gwelliannau'n cael eu gwneud

34 Yn ogystal â nodi sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd, mae fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2017 wedi ystyried y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i gyflawni balans ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol tymor hirach. Rwyf wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol cyffredinol y sefydliad. Rwyf hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion asesu strwythuredig blaenorol sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol. Rwy'n crynhoi fy nghanfyddiadau isod.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i brofi heriau ariannol sylweddol ac er bod arbedion yn helpu i gau'r bwlch adnoddau, nid ydynt yn ddigonol i gyflawni balans ariannol

35 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith ar gyfer pennu ei gyllidebau refeniw a chyfalaf. Mae'r rhain wedi parhau fel ag yr oeddynt yn y blynyddoedd blaenorol ar y cyfan ond mae pwysau ariannol parhaus wedi golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd, er gwaethaf y trefniadau hyn, wedi gallu cytuno ar gynllun ariannol wedi'i fantoli ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf ac mae'r diffyg cronnol wedi parhau i dyfu.

36 Yn 2016-17, roedd gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £39.3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r sefyllfa yn edrych yn debyg ar gyfer 2017-18 ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagamcan diffyg o £36 miliwn. Nid yw hon yn sefyllfa gynaliadwy ar gyfer y dyfodol a bydd adfer y sefyllfa o ddiffyg er mwyn cyflawni balans ariannol yn y dyfodol agos yn heriol iawn.

37 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd hanes da o gyflawni targedau arbedion ariannol a gynlluniwyd ac mae llwyddiant cynlluniau arbed unigol yn amrywiol. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu targedau arbed uchelgeisiol ond nid yw wedi cyflawni unrhyw un o'i dargedau arbedion blynyddol yn llawn ac yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd, mae wedi pennu targedau mwy nag a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol. Ar ben hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ysgwyddo cynnydd ychwanegol heb ei gynllunio mewn costau gwasanaeth, sydd wedi ychwanegu at y diffyg ariannol sylfaenol ac sy'n dylanwadu, yn ei dro, ar lefel yr arbedion sydd eu hangen.

38 Yn rhan o ofynion Deddf Cyllid GIG (Cymru) 2014 (y Ddeddf), mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd wario o fewn ei ddyraniad ariannol dros gyfnod treigl o dair blynedd. Disgwylir i sefyllfa diffyg tair blynedd y Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod 2015-18 fod tua £75.2 miliwn.

## Nid yw'r trefniadau ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion wedi bod yn effeithiol nac yn gynaliadwy ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei ddull ac yn cydnabod yr angen i gynyddu'r pwyslais ar weddnewid gwasanaethau a'u heffeithlonrwydd

39 Mae dull y Bwrdd Iechyd o sicrhau arbedion a chynllunio ariannol ehangach wedi parhau yr un fath ar y cyfan am nifer o flynyddoedd er gwaethaf y dirywiad yn ei berfformiad ariannol. Bu diffyg cefnogaeth a pherchnogaeth gan ddeiliad cyllidebau gan fod y Bwrdd Iechyd yn hanesyddol wedi dwyn cyllidebau blynyddol blaenorol ymlaen flwyddyn ar ôl blwyddyn.

40 Fel yr ydym wedi nodi mewn blynyddoedd blaenorol, mae angen i amcanion ariannol, gwasanaeth a sefydliadol fod wedi eu cysylltu'n well. Yn yr un modd, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyllidebu ar sail sero. Nid yw'n gwneud hynny fel corff yn ei gyfanrwydd, nac ar gyfer rhannau ar wahân, ac mae'r cysylltiadau rhwng y gyllideb, yr amcanion a'r cynlluniau eraill yn aneglur. Heb hyn, mae'n anodd iawn nodi meysydd effeithlon ac aneffeithlon a meincnodi o'i gymharu ag ymarfer.

41 Roedd sefydlu'r Rhaglen Adfer a Chynaliadwyedd ym mis Ionawr 2017 yn gam cadarnhaol ond mae graddfa'r her yn sylweddol. Mae'n gadarnhaol hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnwys cynlluniau arbed yn sefyllfa 'gwaelodlin' cyllidebau, ar gyfer 2018-19, yn hytrach na rheoli cynlluniau arbed ar wahân.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar arbedion ariannol

42 Mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw'r Bwrdd wedi derbyn gwybodaeth ddigon manwl er mwyn craffu ar arbedion ariannol a'u herio, ond mae'r wybodaeth a ddarperir wedi gwella a chafwyd gwelliannau hefyd yn y gwaith craffu.

43 Mae craffu a monitro gweithredol y cynlluniau arbed wedi bod yn wan yn ystod y blynyddoedd blaenorol, ond mae camau'n cael eu cymryd i gryfhau'r trefniadau. Y mater allweddol i'r Bwrdd Iechyd yw sefydlu arfer integredig o adrodd ar gyllid ochr yn ochr â pherfformiad gwasanaethau.

## Cafwyd heriau sylweddol oherwydd trefniadau arwain dros dro a'r trosiant o aelodau bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd mewn sefyllfa fwy sefydlog bellach i fwrw ymlaen â chamau allweddol fel datblygu strategaeth tymor hirach, ymwreiddio trefniadau llywodraethu newydd a chryfhau agweddau ar reoli perfformiad

44 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig wedi asesu trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion asesiadau strwythuredig blaenorol. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u nodi isod.

### Yn dilyn cyfnod ansefydlog o ran aelodaeth y Bwrdd, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol bod angen iddo ddatblygu ei Fwrdd newydd, adolygu strwythurau ei bwyllgorau a chryfhau'r trefniadau llywodraethu cyffredinol yn gyflym

45 Mae'r trosiant o aelodau annibynnol a swyddogion gweithredol wedi creu ansefydlogrwydd yn ystod 2017 ond cydnabyddir y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu'r Bwrdd newydd a chryfhau'r dulliau llywodraethu. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod nifer yr Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol newydd sydd mewn swyddi dros dro yn parhau i fod yn risg ac mae hyn wedi'i ychwanegu at y gofrestr risg gorfforaethol.

46 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu rhaglen datblygu'r Bwrdd ar gyfer y Bwrdd newydd, i ganolbwyntio ar ymddygiad y Bwrdd, arweinyddiaeth gorfforaethol a sicrhau herio effeithiol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd gryfhau camau ar faterion gwella llywodraethu a nodwyd mewn adolygiadau blaenorol.

47 Mae cyfarfodydd pwyllgor â chworwm wedi eu cynnal er gwaethaf bregusrwydd aelodaeth y Bwrdd ac mae cyflwyno'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid wedi bod yn gam cadarnhaol. Fodd bynnag, mae rhai pwyllgorau nad ydynt wedi bod yn gwbl effeithiol, yn arbennig y Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried cynigion i adolygu strwythur ac aelodaeth bresennol ei bwyllgorau.

48 Mae Fforwm Ansawdd a Diogelwch a arweinir gan swyddogion gweithredol wedi'i sefydlu, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac mae gwaith wedi'i wneud i fapio ac ad-drefnu'r grwpiau rheoli sy'n rhoi sicrwydd ar Ansawdd a Diogelwch. Mae hyn wedi symleiddio llinellau adrodd ond mae angen gwneud rhagor o waith.

49 Mae'r broses o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd i'r Bwrdd wedi bod yn araf ond gan fod yna Aelodau newydd ar y Bwrdd a newidiadau i'r strwythurau llywodraethu ar y gweill, mae'r broses hon bellach yn cael ei datblygu fel blaenoriaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod buddion mapio a sicrwydd risg ac mae'n awyddus i fwrw ymlaen â'r gwaith ochr yn ochr â datblygiad ehangach ei Fwrdd newydd. Yn y cyfamser, mae'r system bresennol o sicrwydd yn parhau i fod yn weithredol.

### Wrth weithio yn unol â Chynllun Gweithredu Blynyddol, mae'r Bwrdd Iechyd yn ailddatblygu ei strategaeth glinigol er mwyn llywio ei gynllunio tymor hirach, mwy gweddnewidiol, ond mae capasiti yn gyfyngedig

50 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ac mae'n gweithio'n unol â Chynllun Gweithredu Blynyddol. Mae datblygiad cynllun 2018-19 wedi ei lywio gan egwyddorion cynllunio allweddol, gyda phwyslais cynharach ar weithgarwch, cyllid a gofynion perfformiad 2018, ac ymgysylltiad mwy trylwyr gan y Bwrdd. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y mae adrodd a chraffu ar lefel y pwyllgor yn alinio ar draws y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid newydd a'r bwriad i ailsefydlu'r Pwyllgor Strategaeth.

51 Rhoddwyd pwyslais angenrheidiol ar ymateb i'r ymyrraeth wedi'i thargedu, ond mae hyn wedi arwain at ymagwedd tymor byr at strategaeth a chynllunio. Mae'r strategaeth glinigol, a ddatblygwyd yn 2013 wedi dyddio ac mae ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch cyllid y rhaglen ARCH[2]. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol bod angen iddo osod cyfeiriad a gweledigaeth tymor hirach ar gyfer y sefydliad ac mae'n datblygu strategaeth glinigol newydd ar hyn o bryd.

52 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu mewn amgylchedd strategol cymhleth a cheir nifer o raglenni strategaeth ac ymgynghoriadau newid gwasanaethau o bwys i'w rheoli a chyfrif amdanynt. Mae capasiti cynllunio'r Bwrdd Iechyd yn gyfyngedig ac mae'n ceisio comisiynu cymorth i gefnogi'r galw a chynllunio capasiti a datblygu sgiliau ac arbenigedd cynllunio gweithredol.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rheoli effaith newidiadau mawr i'w swyddogion gweithredol yn 2017 ac mae'n cydnabod bod datblygu'r tîm gweithredol newydd, datblygu arweinyddiaeth a chapasiti, ac ymwreiddio trefniadau bwrdd rhaglenni newydd yn flaenoriaethau ar gyfer 2018

[2] Mae Cydweitrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd (ARCH) yn fodel rhanbarthol ar gyfer iechyd yn ne-orllewin Cymru, sy'n seiliedig ar gydweithrediad â Phrifysgol Abertawe a Bwrdd Iechyd Hywel Dda

53 Mae swyddogion gweithredol wedi dangos ymrwymiad i gynnal arweinyddiaeth mewn cyfnod o newidiadau gweithredol mawr, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod sefydlu ei dîm arweinyddiaeth newydd yn flaenoriaeth ar gyfer 2018. Mae'r aelodaeth weithredol ddiwygiedig yn cynnig cyfle i ddatblygu cydweithio agosach fel un tîm arweinyddiaeth, ac i sicrhau cydbwysedd ar draws y portffolios gweithredol.

54 Mae Strwythur yr Uned Gyflawni wedi'i sefydlu'n llawn erbyn hyn a cheir rhai enghreifftiau o gydweithio da rhwng unedau. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth hefyd sy'n dangos nad yw gwaith ar draws y system rhwng timau rheoli unedau wedi ei ymwreiddio'n llawn nac yn gyson. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cymryd camau i ddatblygu dull arwain yr uwch dîm ar draws y timau rheoli unedau a'r Weithrediaeth, i ddatblygu un safbwynt corfforaethol a rennir ar y gwasanaethau a ddarperir a'r cyfrifoldebau rheoli unedau ar draws y Bwrdd Iechyd.

55 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diddymu ei Fwrdd Comisiynu a'i Fwrdd Cyflawni yn ddiweddar ac mae tri Bwrdd Rhaglen newydd yn cael eu sefydlu, gan gynnwys cynllunio a gwella. Bydd comisiynu ac egwyddorion sy'n seiliedig ar werthoedd yn rhan annatod o waith cynllunio'r Byrddau Rhaglenni newydd. Mae'n rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y Byrddau newydd ac nid yw'r gwaith o fapio'r rhaglenni newid strategol a reolwyd yn flaenorol gan y Byrddau Comisiynu wedi ei gwblhau eto.

### Mae'r trefniadau rheoli risg yn aeddfedu ond byddai dull mwy integredig o adrodd a phwyslais cryfach ar atebolrwydd a chanlyniadau o fudd o ran rheoli perfformiad

56 Mae'r Bwrdd Iechyd yn diweddaru ei strategaeth rheoli risg ac yn cymryd camau i aeddfedu ei ddull ymhellach. Mae gweithdy ar gyfer aelodau'r Bwrdd wedi ei gynnal yn ddiweddar i ystyried ei ddull presennol o reoli risg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno cofrestri risg ar gyfer y portffolios gweithredol a gwella templed y gofrestr risg gorfforaethol, gan gynnwys asesu a chraffu cliriach o risgiau a bennwyd gan bwyllgorau unigol. Bydd y gwaith yn cyd-fynd â datblygiad Fframwaith Sicrwydd Bwrdd y Bwrdd Iechyd.

57 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar faterion perfformiad a gyfrannodd at yr ymyrraeth wedi'i thargedu ac er bod Rhaglen Adfer a Chynaliadwyedd wedi arwain gwaith pwysig, mae angen mwy o berchnogaeth gan yr Uned Gyflawni. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar waith ond mae'r fframwaith sydd wedi ei ddogfennu yn anghyfredol, mae'n bosibl nad yw nifer y cyfarfodydd sy'n ymwneud a pherfformiad yn gynaliadwy ac mae angen pwyslais cryfach ar ganlyniadau. Mae cyflwyno Pwyllgor Perfformiad a Chyllid newydd yn cryfhau gwaith craffu ond gellid gwella agweddau ar adrodd, a byddai adrodd mwy integredig yn diwallu anghenion y Bwrdd Iechyd yn well.

## Mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth bresennol ond bydd bodloni'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd yn heriol o fewn yr adnoddau presennol

58 Mae Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth yn gyfrifol am holl wybodaeth y Bwrdd Iechyd ac mae'n rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ar effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu gwybodaeth. Nododd archwiliad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn 2016 nifer o feysydd i'w gwella, llawer ohonynt yn berthnasol i allu'r Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd sy'n dod i rym ym mis Mai 2018.

59 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â materion a nodwyd gan yr ICO. Fodd bynnag, mae llawer o waith ar ôl er mwyn cydymffurfio â gofynion GDPR, gan gynnwys cwblhau Cofrestr Asedau Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd a gwneud rhagor o gynnydd sylweddol i sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth. Mae'r risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio erbyn mis Mai 2018 wedi ei hychwanegu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ddiweddar, yn bennaf oherwydd y cosbau ariannol sylweddol y byddai'n rhaid eu hysgwyddo pe byddai'r Bwrdd Iechyd yn torri'r rheoliad. Mae'n annhebygol y bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni ac, wedi hynny, cynnal cydymffurfiaeth o fewn yr adnoddau presennol, ac mae'n chwilio am gapasiti ychwanegol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran ei ddefnydd o'r Ymgyrch Twyll Genedlaethol (NFI) i ddatgelu twyll a gordaliadau

60 Mae'r NFI yn ymarfer cydweddu data bob dwy flynedd sy'n helpu i ddatgelu twyll a gordaliadau drwy gydweddu data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodiadau twyllodrus neu wallus posibl. Mae'n ddull effeithiol iawn o ddatgelu ac atal twyll a gordaliadau, a helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

61 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfranogwr gorfodol yn yr NFI. Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd y Bwrdd Iechyd achosion o gydweddu data drwy raglen yr NFI ar y we. Mae achosion o gydweddu data yn amlygu anomaleddau sy'n gallu bod o gymorth i nodi twyll a chamgymeriadau drwy eu hadolygu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wtrh adolygu achosion o gydweddu data. Nid oes unrhyw dwyll wedi'i nodi yn sgil yr adolygiad a gynhaliwyd, sy'n darparu sicrwydd bod trefniadau gwrth-dwyll y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, rwy'n nodi nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r achosion o gydweddu data mewn dau adroddiad cydweddu gan yr NFI – mae'r adroddiadau hyn yn cydweddu data'r gyflogres, taliadau credydwyr a Thŷ'r Cwmnïau, a gallant fod o gymorth i nodi buddiannau staff heb eu datgelu a thwyll caffael. Rwyf felly yn argymell bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r achosion hyn o gydweddu data, a hynny ar frys.

Er bod mwy i'w wneud i gwblhau rhai camau gweithredu yn llawn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd ac mae'r trefniadau angenrheidiol ar waith i dracio argymhellion yr archwiliad

50 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yng ngwaith asesu strwythuredig y llynedd. O'r 12 o argymhellion, mae chwech wedi'u cwblhau, ac mae chwech ar y gweill ond heb eu cwblhau eto. Mae'r cynnydd hwn yn gyson yn fras â'r diweddariad ar y cynnydd a gyflwynwyd gan y swyddog atebol i'r Pwyllgor Archwilio.

51 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion fy asesiad strwythuredig yn 2016, ystyriais hefyd effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd i ymateb i argymhellion fy archwiliad. Canfûm fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i fonitro ymateb y rheolwyr i argymhellion fy archwiliad a rhai'r archwilwyr mewnol, a derbyniodd y Pwyllgor Gofrestr ac Adroddiad Cynllun Gweithredu yr Archwiliad yn amlygu'r argymhellion sydd wedi'u cwblhau, sydd ar waith neu sy'n hwyr. Nid oes trefniadau ar waith i dracio argymhellion cyrff archwilio eraill, gan gynnwys AGIC a'r Uned Gyflawni.

52 Mae'r adroddiad tracio i'r Pwyllgor Archwilio wedi'i wella ac mae bellach yn nodi sawl diwrnod yn hwyr y mae'r argymhellion sy'n weddill o bob archwiliad. Mae pa un a yw'r camau hwyr hyn yn berthnasol i faterion risg uchel yn cael ei ychwanegu at adroddiadau yn y dyfodol er mwyn hysbysu a helpu'r Pwyllgor i dargedu ei waith craffu a dwyn swyddogion i gyfrif pan fo cynnydd yn araf, yn enwedig mewn meysydd o sicrwydd cyfyngedig ac sy'n risg uchel.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ymgysylltiad cadarnhaol â rhanddeiliaid ond mae'n wynebu nifer o heriau o ran y gweithlu, rheoli asedau a TGCh a rheoli rhaglenni

53 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig wedi adolygu sut y rheolir nifer o alluogwyr allweddol o ddefnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Crynhoir fy nghanfyddiadau allweddol yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: canfyddiadau allweddol ar y defnydd o alluogwyr defnyddio adnoddau o'r asesiad strwythuredig

| Mater | Crynodeb o'r canfyddiadau |
|---|---|
| Capasiti i reoli newid | Mae Swyddfa Rheoli Rhaglen i gefnogi'r Rhaglen Adfer a Chynaliadwyedd wedi'i sefydlu, ac mae gwaith datblygu sefydliadol sylweddol yn digwydd, ond mae'r capasiti rheoli rhaglen i gefnogi newid strategol ehangach yn gyfyngedig ac mae angen i raglenni newid strategol gael eu hadolygu a'u hailfapio i strwythurau cyflawni newydd. |
| Cynllunio gweithlu | Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu nifer o heriau o ran y gweithlu gan gynnwys recriwtio, salwch a chwblhau arfarniadau a hyfforddiant statudol a gorfodol. Mae angen iddo hefyd gryfhau ei drefniadau cynllunio a chraffu ar y gweithlu. |
| Rheoli asedau | Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi diffinio ei strategaethau rheoli asedau hyd yn hyn ac mae'n wynebu penderfyniadau anodd ynghylch blaenoriaethu adnoddau gan fod ôl-groniad o £60 miliwn yn yr adran ystadau a gwerth £75 miliwn o offer trwm a chyfarpar wedi cyrraedd diwedd eu hoes economaidd. Mae'r strategaeth TGCh wedi ei datblygu'n dda ond mae angen blaenoriaethu prosiectau ac mae capasiti TGCh yn cyflwyno heriau tymor hirach i gefnogi moderneiddio. |
| Partneriaethau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid | Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â rhanddeiliaid, ond mae cymhlethdod gwaith partneriaeth a newid gwasanaeth yn rhoi galw sylweddol ar y capasiti sefydliadol sydd ar gael i gefnogi'r gwaith hwn. |

Mae rheolaeth bob dydd y gweithrediadau radioleg yn dda, ond mae galw cynyddol, heriau sylweddol o ran y gweithlu, offer sy'n heneiddio a chynllunio strategol gwan yn arwain at ôl-groniadau o ran adrodd, a risgiau eraill i gyflawniad yn y dyfodol

54 Canfu fy ngwaith ar y gwasanaethau radioleg bod mynediad agored at wasanaethau yn gwahaniaethu ar draws y Bwrdd Iechyd. Er gwaethaf cynnydd sylweddol mewn galw, mae cleifion yn cael eu harchwiliadau radiolegol o fewn wyth wythnos ar draws yr holl foddau, ond mae ôl-groniadau o ran adrodd ac amserau adrodd yn amrywio ar draws y safleoedd, ac mae rwystrau i welliannau. Mae gan y ddwy uned eu rhaglenni eu hunain o archwilio clinigol a chynhelir rhai archwiliadau ar y cyd bob blwyddyn, ond mae lefel yr adolygiad gan gymheiriaid ar

ansawdd yr adrodd yn isel. Anogir y staff i adrodd am gŵynion a digwyddiadau, ac mae dulliau i gleifion roi adborth wedi gwella, ond gallai rhai materion sy'n ymwneud ag amgylchedd yr unedau effeithio ar brofiad y cleifion.

55 Mae'r prif ffactorau sy'n ysgogi'r galw am wasanaethau radiolegol y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd i raddau helaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar ganllawiau atgyfeirio cenedlaethol, ond mae absenoldeb system gais electronig yn creu risg, ac er bod ansawdd cyngor y radiolegwyr yn dda, nid yw bob amser yn rhwydd ei gael. Mae diffyg trefniadau gwneud apwyntiadau cydgysylltiedig yn cyfyngu ar y gallu i wella'r modd o reoli rhestrau aros, ond diogelir rhywfaint o gapasiti yn y sesiynau ar gyfer gweithgarwch brys. Ar draws y Bwrdd Iechyd, mae nifer y radiolegwyr a'r radiograffwyr sy'n nesáu at oedran ymddeol yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae recriwtio i lenwi swyddi radioleg gwag yn heriol iawn. Mae staff yn cynnal mwy o archwiliadau na chyfartaledd Cymru ac mae proffil y gweithlu radioleg ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Nododd fy nhîm bod radiolegwyr a sonograffwyr yn llai tebygol o fod yn cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol na staff eraill, ac mae cyfyngiadau staffio yn amharu ar gyfleoedd hyfforddi. Mae nifer y sganwyr yn unol â chyfartaledd Cymru yn fras, ond mae gan rai oriau gweithredu byrrach, ac er bod potensial i optimeiddio'r defnydd ar benwythnosau, gallai hyn gostio mwy i'r gwasanaeth.

56 Mae diffyg cynllun strategol ar y cyd yng ngwasanaethau radioleg y Bwrdd Iechyd, ac ni cheir cynlluniau gweithredol na chynlluniau ariannol blynyddol manwl, ond fe geir cynllun gweithlu. Mae'r trefniadau rheoli ac atebolrwydd yn glir ar lefel yr unedau cyflawni a'r lefel weithredol, ond mae angen canolbwyntio ar gyflawni gwasanaeth radioleg ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan, ac nid yw rhai cyfarfodydd radioleg ar y cyd allweddol yn cael eu cynnal bellach. Nid oes gan y gwasanaeth gynrychiolaeth dda ar bwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Bwrdd ychwaith. Yn y blynyddoedd diweddar, mae gwariant y gwasanaeth wedi bod yn agos i'r gyllideb, ond nid yw targedau arbed wedi eu cyflawni ac maent yn ymddangos yn afrealistig. Er nad oes cyllideb dyraniad cyfalaf, mae pob gwasanaeth radioleg yn cynhyrchu rhaglen amnewid offer, ac mae rhywfaint o'r offer hŷn yn peri risgiau sylweddol i ofal y cleifion a pharhad y gwasanaeth. Mae diffyg amserlen glir ar gyfer sefydlu un system radioleg graidd yn cyfyngu ar ddatblygiad gwasanaethau radioleg mwy cydgysylltiedig. Mae perfformiad radioleg yn cael ei adolygu'n rheolaidd ar lefel y gwasanaeth a thrwy gyfarfodydd y tîm perfformiad corfforaethol, ond ceir adrodd mwy cyfyngedig ar berfformiad radioleg ar lefel yr unedau.

### Mae gan y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau drefniadau llywodraethu effeithiol a llai o broblemau staffio nag yn y rhan fwyaf o'r rhannau o Gymru. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei ddealltwriaeth o'r galw, ymdrin â phroblemau â data perfformiad a chryfhau ei gynllunio strategol a gweithlu

57 Canfu fy adolygiad o'r gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau fod angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei ddealltwriaeth o gapasiti a galw, a sicrhau bod gan y gwasanaeth ddigon o broffil o fewn cynlluniau ehangach 111. Mae'r arolwg o'r staff

yn dangos safbwyntiau cadarnhaol ynghylch arweinyddiaeth glinigol a gweithredol gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau a nod newidiadau i'r strwythur rheoli yw rhoi mwy o eglurder. Mae trefniadau rheoli perfformiad a chraffu ar waith, ac mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael â phroblemau o ran darparu data perfformiad i Lywodraeth Cymru.

58 Er nad oes gan y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau gynllun gweithlu, ychydig iawn o sifftiau heb eu llenwi sydd gan y gwasanaeth, mae'r staff yn gadarnhaol ynghylch y cymorth y maent yn ei gael ac mae rhai swyddogaethau nad ydynt yn draddodiadol yn cael eu profi. Er iddo gynyddu ei wariant ar wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, mae cost y Bwrdd Iechyd fesul cyswllt yn gymharol isel ac mae'r gwasanaeth wedi mabwysiadu dull cadarn o ymdrin â thâl sesiynol meddygon teulu.

59 Mae'r cyfeirio at wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn dda ac mae'r gallu i gael gofal sylfaenol y tu mewn i oriau yn agos at gyfartaledd Cymru, ond nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu data perfformiad misol ar gymryd galwadau, gwasanaethau clywed a thrin a gweld a thrin. Canfu fy ngwaith bod cydleoli adrannau y tu allan i oriau ac adrannau brys wedi arwain at berthynas waith gryfach ac mae'r cyfeirlyfr newydd o wasanaethau yn alluogwr allweddol ar gyfer atgyfeiriadau priodol at wasanaethau eraill.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid i wella'r llif o gleifion ac i gynllunio rhyddhau, ond er bod perfformiad yn gwella, mae mwy i'w wneud o hyd

60 Nododd fy ngwaith bod cynlluniau clir ar waith i wella'r gwaith o gynllunio rhyddhau, sydd wedi ei ddatblygu gydag awdurdodau lleol ac sy'n canolbwyntio ar waith ar y cyd ac ymateb i bwysau gaeaf. Mae lle i gryfhau'r polisi rhyddhau, ond ar y cyfan mae'n dda o'i gymharu ag arfer da. Mae nifer o lwybrau rhyddhau ar waith, ond mae'r cysylltiadau rhwng llwybrau cyffredinol a phenodol yn aneglur ac nid ydynt wedi eu nodi'n glir yn y polisi rhyddhau.

61 Mae adnoddau amlddisgyblaeth penodol ar waith mewn ysbytai i gefnogi cynllunio rhyddhau, ond maent yn weithredol ar ddiwrnodau'r wythnos yn unig. Mae hyfforddiant staff wedi ei gyflwyno i gynyddu'r ymwybyddiaeth o bolisïau a llwybrau newydd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo fynd i'r afael â hyder y staff i sicrhau rhyddhau diogel ac amserol.

62 Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cynllunio rhyddhau, a cheir craffu rheolaidd o berfformiad, a hynny ar lefel strategol a gweithredol. Defnyddir ystod o wybodaeth i gefnogi craffu amserol ar y llif cleifion, ond gallai gynnwys data sy'n fwy penodol i gynllunio gweithlu wrth adrodd i bwyllgorau'r Bwrdd. Mae perfformiad o ran hyd cyfnodau aros ac amseroedd aros mewn Adrannau Brys yn dangos arwyddion o wella, ond mae mwy i'w wneud i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion fy ngwaith blaenorol, ond mae angen mwy o bwyslais er mwyn lleihau'r oedi wrth ddarparu apwyntiadau dilynol, drwy wella prosesau gweithredol a moderneiddio gwasanaethau

63 Yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'm gwaith archwilio, fel y trafodwyd ym mharagraffau 50-52, mae fy ngwaith wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'm gwaith archwilio blaenorol, er y gall y cynnydd hwn fod yn araf ar brydiau. O'r argymhellion sy'n weddill ar ddiwedd mis Rhagfyr 2017 a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2018, roedd 133 o'r camau gweithredu wedi eu cwblhau, roedd 118 ar y gweill ac o fewn yr amserlenni, ac roedd 32 (11%) yn hwyr.

64 Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi cynnal gwaith archwilio dilynol manwl i asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei wneud i fynd i'r afael â phryderon ac argymhellion sy'n codi o waith archwilio blaenorol ar apwyntiadau cleifion allanol dilynol. Crynhoir canfyddiadau'r gwaith dilynol hwn yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwiliad mewn meysydd gwasanaeth penodol

| Maes gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau archwilio allweddol |
|---|---|
| Apwyntiadau cleifion allanol dilynol | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion, ond mae angen mwy o bwyslais er mwyn lleihau'r oedi wrth ddarparu apwyntiadau cleifion allanol, drwy wella prosesau gweithredol a moderneiddio gwasanaethau. |

### Mae trefniadau comisiynu ar y cyd wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig ar gyfer gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru; fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid

65 Canfu fy adolygiad o'r trefniadau Cymru gyfan ar gyfer comisiynu gwasanaethau ambiwlans brys bod y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) wedi helpu i ysgogi newidiadau pwysig, fel datblygu'r model CAREMORE®[3]. Fodd bynnag, nid yw'r strwythurau a'r swyddogaethau i sicrhau atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau ambiwlans brys yn glir. Canfûm fod lle i wneud swyddogaethau EASC, Llywodraeth Cymru a'r Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans yn gliriach o ran perfformiad, cyllid a moderneiddio'r gwasanaeth ambiwlans brys. Ar ben hynny, er

[3] Mae'r model CAREMORE® yn cynnwys dull comisiynu 'a wnaed yng Nghymru'. Mae ei nod masnach cofrestredig yn eiddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar ran GIG Cymru.

bod ffurfio EASC wedi cefnogi perchnogaeth Cymru gyfan o'r gwasanaethau ambiwlans brys, nododd fy nhîm bod angen i EASC wneud mwy i ysgogi gweddnewidiad y gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, mae diffyg eglurder a phwrpas i is-strwythur y grŵp, sy'n sail i EASC, sy'n effeithio ar bresenoldeb staff y bwrdd iechyd a gallu is-grwpiau i wneud cyfraniad ystyrlon.

66 Mae partneriaid yn cefnogi'r model comisiynu ond ceir amrywiaeth ym mha mor gyflym y mae'r bwrdd iechyd yn ysgogi'r newidiadau gofynnol er mwyn galluogi'r model i weithio fel y bwriadwyd, ac nid yw'r model yn ystyried gweithgarwch rhanbarthol neu dros y ffin. Nododd fy ngwaith fod yna barodrwydd cyffredinol o du Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r byrddau iechyd i weithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau ambiwlans, ond mae lefel perchnogaeth perfformiad a moderneiddio llwybrau ambiwlans brys gan fyrddau iechyd yn amrywiol, ac mae'r prif bwyslais ar gamau olaf y llwybr ambiwlans, megis trosglwyddiadau ambiwlans. Adroddais fod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ymateb yn briodol i gytundebau a nodwyd gan EASC, ond mae cydymffurfiaeth y byrddau iechyd a lefel eu dealltwriaeth o'r gofynion a nodir yn CAREMORE® yn amrywio.

67 Canfu fy ngwaith fod trefniadau comisiynu yn sail i rai gwelliannau i wasanaethau ambiwlans brys. Mae cyflwyno'r model ymateb clinigol newydd yn cefnogi partneriaid i gyflawni targedau perfformiad Llywodraeth Cymru, ac mae potensial i wella perfformiad eto yn sgil mentrau eraill y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Mae newidiadau sydd wedi eu cynllunio i wasanaethau a monitro perfformiad partneriaid bellach wedi eu cyfochri'n gynyddol â'r Llwybr Gofal Cleifion Ambiwlans (y cyfeirir ato fel y model pum cam). Fodd bynnag, mae angen mwy o gysondeb ar draws y byrddau iechyd ac mae'n rhy fuan i ddweud pa un a yw hwn yn cael effaith ai peidio. Ceir cyfres o fesurau sylweddol well ac ehangach, sy'n canolbwyntio ar weithgarwch a pherfformiad drwy'r Dangosyddion Ansawdd Ambiwlans. Fodd bynnag, nid yw partneriaid yn gwneud digon eto i ddeall canlyniadau a phrofiad cleifion yn llawn wrth dderbyn gofal ambiwlans brys.

## Nid yw'r trefniadau ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent

68 Canfu fy adolygiad o'r trefniadau ar y cyd rhwng Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) a byrddau iechyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol fod gwaith effeithiol ar y cyd i wella iechyd yn dibynnu ar arweinyddiaeth gydsyniol, nad yw bob amser yn amlwg. Yn y system iechyd cyhoeddus gyffredinol, mae amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau yn cyfrannu at ddiogelu a gwella iechyd a lles, a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Nid yw'r un sefydliad yn gyfan gwbl gyfrifol am wella iechyd a lles y boblogaeth ond priodolir y gallu i gyflawni hynny i gydweithio effeithiol.

69 Er na fydd yn ddymunol i nodi un arweinydd system, mae angen mwy o eglurder ynghylch swyddogaethau perthnasol y gwahanol randdeiliaid yn y system. Canfu fy ngwaith fod diffyg trafodaeth ystyrlon rhwng yr Ymddiriedolaeth, timau iechyd

cyhoeddus lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau ei gilydd a fframwaith y cytunwyd arno sy'n nodi'r gwaith a wneir orau ar y cyd.

70 Ar hyn o bryd, mae diffyg trefniadau effeithiol i sicrhau gwerth am arian o'r adnoddau a ddyrennir i dimau iechyd cyhoeddus lleol. Nid oes cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus i drafod sut y defnyddir adnoddau i wella iechyd a lles a pha un a ydynt yn cyflawni'r budd a fwriadwyd. Canfu fy ngwaith hefyd ddiffyg dulliau cadarn o ddyrannu neu newid adnoddau timau iechyd cyhoeddus lleol. Yn hytrach, mae trafodaethau ad hoc yn cael eu cynnal pan fo swyddi gwag yn codi.

71 Canfu fy ngwaith fod trefniadau ar waith i gefnogi cofrestriad proffesiynol staff a ddefnyddir gan yr holl dimau lleol, ond mae angen mwy o eglurder ynghylch sut y defnyddir hyn i ddangos cymhwysedd proffesiynol a datblygiad gyrfa. Mae trefniadau newydd hefyd yn helpu i gryfhau prosesau arfarnu a chynllunio datblygiad personol, ond mae angen gwneud mwy i asesu anghenion datblygiad ar y cyd timau iechyd cyhoeddus lleol.

72 Nid yw'r dulliau o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd cyhoeddus lleol wedi eu datblygu'n ddigonol. Nid oes dull safonol o rannu gwybodaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn y mae gwahanol gyfranogwyr yn ei wneud ar lefel genedlaethol a lleol. Canfu fy ngwaith hefyd ddiffyg trefniadau ar gyfer cydgysylltu gwaith a ddatblygwyd neu a gyflawnwyd yn lleol neu'n genedlaethol, a chyfathrebu gwybodaeth i'r partneriaid hynny a rennir.

73 Rwyf wedi nodi'r ymateb cydweithredol ac ar y cyd gan y rheolwyr sydd wedi ei baratoi gan yr Ymddiriedolaeth, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i fy nghanfyddiadau. Rwy'n bwriadu gwneud rhagor o waith yn 2018 i asesu'r cynnydd sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â fy argymhellion.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyflwynwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 4: adroddiadau a gyflwynwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwiliadau ariannol** | |
| Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2017 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2017 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gwasanaethau Radioleg | Chwefror 2017 |
| Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans Brys | Ebrill 2017 |
| Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu | Awst 2017 |
| Trefniadau ar y Cyd ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol | Hydref 2017 |
| Adolygiad o Gynllunio Rhyddhau | Ionawr 2018 |
| Diweddariad ar y cynnydd o ran Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol | Ionawr 2018 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2017 | Mawrth 2017 |

Arddangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad sy'n parhau i fod ar waith a'r dyddiadau cwblhau amcangyfrifiedig

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifiedig |
|---|---|
| Asesiad Strwythuredig 2017 | Adroddiad drafft: Chwefror 2017<br>Cwblhau: Mawrth 2018 |
| Adolygiad o'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol | Adroddiad drafft wedi ei gynllunio ar gyfer haf 2018 |
| Adolygiad trawsbynciol o'r Gronfa Gofal Integredig | Gwaith maes i ddechrau ym mis Mawrth 2018. Mae un adroddiad cenedlaethol wedi ei gynllunio ar gyfer mis Tachwedd 2018. |

74 Yn ogystal â hyn, yn rhan o fy nghynllun ar gyfer 2017 cytunodd fy archwilwyr i gefnogi datblygiad y Bwrdd newydd, drwy gyflwyno yn ehangach ganfyddiadau fy asesiad strwythuredig a'm cyfraniad i hyfforddiant sefydlu Aelodau Annibynnol newydd ynghylch swyddogaeth craffu a sicrwydd. Mae fy nhîm yn trafod ag Ysgrifennydd Bwrdd y Bwrdd Iechyd i gadarnhau'r amserlen.

# Atodiad 2

## Ffi'r archwiliad

Roedd Cynllun Archwilio 2017 yn nodi ffi arfaethedig yr archwiliad, sef £421,807 (heb gynnwys TAW). Fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhywfaint o'r gwaith yn parhau i fod ar waith, yw y bydd cyfanswm y ffi derfynol ryw £416,000.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio sylweddol

Arddangosyn 6: risgiau archwilio sylweddol

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg bod rheolwyr yn drech na'r rheolaethau yn bresennol yn yr holl endidau. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai trechu o'r fath ddigwydd, caiff ei ystyried yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddiaduron ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu am ragfarn; ac<br>• yn gwerthuso'r sail resymegol i unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi cofnodion mewn dyddiaduron;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu, taliadau gofal sylfaenol penodol; ac<br>• ni wnaeth nodi unrhyw drafodiadau y tu allan i gwrs busnes arferol.<br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r gwaith a wnaed. |
| Mae risg o gamddatgan o bwys yn sgil twyll wrth gydnabod refeniw ac felly caiff ei thrin fel risg sylweddol [ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio:<br>• yn adolygu ac yn profi'r ffrydiau cyllid ac incwm unigol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu derbyn; ac<br>• yn ystyried pa un a yw'r holl ffrydiau cyllid ac incwm wedi'u nodi. | Adolygodd fy nhîm archwilio ffrydiau archwilio i sicrhau eu bod yn gyflawn a phrofi eu bod yn gywir.<br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r gwaith a wnaethpwyd. |
| Mae risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â bodloni ei ddyraniad adnodd refeniw. Mae'r sefyllfa ym mis 9 yn dangos diffyg blwyddyn i'r dyddiad o £26.6 miliwn a rhagwelir diffyg o £39.2 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n bosibl y byddaf yn dewis gosod adroddiad perthnasol ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant a'r amgylchiadau a'i achosodd.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar feysydd o'r datganiadau ariannol, a allai gynnwys rhagfarn o ran adrodd. | Adolygodd fy nhîm archwilio drafodiadau diwedd y flwyddyn, yn enwedig croniadau a thorbwynt. Nid oes unrhyw faterion yn codi o'r gwaith a wnaethpwyd.<br>Dewisais osod adroddiad perthnasol ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant a'r amgylchiadau â'i achosodd. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Iechyd yn cynyddu’r risg y gallai barn ac amcangyfrifon y rheolwyr fod yn rhagfarnllyd mewn ymdrech i gyflawni’r terfyn adnoddau. | | |
| Yn 2015-16 adroddwyd mater o ran contract o dros £1 milliwn â darparwr gofal iechyd preifat nad oedd â’r gymeradwyaeth ofynnol gan Lywodraeth Cymru.<br>Ar gyfer 2016-17 ceir risg bod contractau o dros £1 miliwn nad ydynt wedi cael y gymeradwyaeth ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Gallai hyn effeithio ar fy marn reoleiddiol. | Bydd fy nhîm archwilio yn profi sampl o gontractau o dros £1 milliwn gan gynnwys darparwyr gofal iechyd preifat i sicrhau bod cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru wedi ei derbyn. | Profodd fy nhîm archwilio sampl o gontractau o dros £1 miliwn. Ni chododd unrhyw faterion o’r gwaith a wnaethpwyd. |
| Mae atebolrwydd am gostau gofal iechyd sy’n parhau yn dal i fod yn broblem ariannol sylweddol i’r Bwrdd Iechyd. Arweiniodd y dyddiad terfyn ar 31 Gorffennaf 2014 ar gyfer cyflwyno unrhyw hawliadau ar gyfer costau gofal iechyd parhaus sy’n dyddio yn ôl i 1 Ebrill 2003 at gynnydd mawr yn nifer yr hawliadau a gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac mae’r Bwrdd Iechyd yn cynnwys yn ei gyfrifon symiau sy’n ymwneud â’r costau gofal iechyd ansicr parhaus hynny.<br>Fodd bynnag, yn ogystal â hyn mae gan y Bwrdd Iechyd 207 o hawliadau eraill, a dderbyniwyd erbyn y dyddiad terfyn ar 31 Gorffennaf 2014 a derbyniwyd 83 arall ar ôl y dyddiad hwn. | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio Gofal Iechyd Parhaus ac yn sicrhau’r driniaeth gyfrifyddu gywir. | Profodd fy nhîm archwilio sampl o wariant, credydwyr, darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn Gofal Iechyd Parhaus. Ni chododd unrhyw faterion o’r gwaith a wnaethpwyd. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Ceir risg nad yw'r symiau hyn wedi eu hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol a gallai'r datganiadau ariannol fod yn sylweddol gamarweiniol. | | |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno i nifer o becynnau dileu swydd â staff yn ystod 2016-17. Mae'r eitemau hyn yn sensitif iawn yn naturiol ac os na ddilynir y gweithdrefnau cywir, gallai hynny effeithio ar fy marn ar reoleidd-dra'r cyfrifon. | Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn. Bydd fy nhîm wedyn yn adolygu sampl o becynnau dileu swydd ar ddiwedd y flwyddyn. | Gweithiodd fy nhîm archwilio gyda'r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn.<br>Rwyf wedi adrodd yn Arddangosyn 1 bod angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli ymadawiadau uwch aelodau o staff. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru